# Treftadaeth Gymreig

# Gwlad Gweithredu

CHWEFROR 2009

Rhan-ariennir prosiect 'Dylunio ein Dyfodol' gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru
drwy gyfrwng Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Planed

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

CarnegieUK TRUST
CHANGING MINDS • CHANGING LIVES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# CYMUNED GYNALIADWY TREFDRAETH

## DATGANIAD CEFNDIR A CHYNIGION AR GYFER GWEITHREDU 2009

CYNNWYS:


Cyflwyniad a'r Ffordd Ymlaen ..... 1
Ardal y Cynllun Gweithredu ..... 1
Datganiad Cryno ..... 2

ADRAN 1 Y Gymuned, Gwasanaethau a Thai ..... 4

ADRAN 2 Yr Amgylchedd ..... 15
a) Cadwraeth a Gwelliant ..... 15
b) Adnoddau ac Ynni Gwastraff ac Ailgylchu.. 16
c) Seilwaith, Traffig, Trafnidiaeth a Pharcio .... 19

ADRAN 3 Yr Economi Lleol ..... 22

ADRAN 4 Treftadaeth, Diwylliant, Celf a Chrefft ..... 28

ATODIAD Rhai o gyflawniadau Trefdraeth Ers 2004 ..... 31



*Paratowyd y ddogfen hon gan Fforwm Cymunedol Trefdraeth. Gyda diolchiadau hefyd i Dr Brian John am gyfrannu Ffotograffau*
*Cytunwyd y Cynllun Gweithredu hwn mewn cyfarfod cyhoeddus ar 23ain Mawrth 2009, ar ôl dosbarthu'r cynllun gweithredu drafft i bob cartref yn y gymuned.*

# CYFLWYNIAD A'R FFORDD YMLAEN

## Ardal y Cynllun Gweithredu

Ym mis Chwefror 2008 cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus, gan ddefnyddio "Adnodd Hybu Cynaliadwyedd" PLANED, ar gyfer cymuned Trefdraeth i ddiweddaru ac ychwanegu cyfleoedd newydd at "Gynllun Gweithredu Trefdraeth 2004" ac edrych ar brosiectau a fyddai'n cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor. Yn y cyfarfod dilynol ym mis Tachwedd 2008 penderfynwyd y dylai'r ddogfen newydd gael teitl newydd a bod yn fwy hyblyg. Cytunwyd hefyd nad yw'r rhestr o "gynigion" yn gynhwysfawr nac yn sefydlog ond bydd yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau newidiol wrth iddynt godi.

Nod y "Cyflwyniad" hwn a'r "Sylwadau" ar bob Adran o dan "Ardal y Cynllun Gweithredu" yw disgrifio sefyllfa ac anghenion presennol Trefdraeth. Mae'r "cynigion" sydd ynghlwm wrth bob Adran yn rhestru'r syniadau niferus ar gyfer datblygu cynaliadwy a awgrymwyd gan aelodau'r gymuned i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw yn Nhrefdraeth yn gweithio yno neu'n ymweld â'r ardal.

Mae Trefdraeth wedi cynnal sawl astudiaeth ac wedi datblygu Cynlluniau eraill yn ystod bron i 20 mlynedd o weithio yn fentrus yn y gymuned. Mae llawer o bobl yn feirniadol am yr ychydig sydd wedi'i gyflawni o ganlyniad uniongyrchol i'r astudiaethau, a digon teg yw hynny. Y gobaith y tro hwn yw y bydd mwy o aelodau'r gymuned yn sylweddoli manteision cydweithio er mwyn sicrhau bod y gwelliannau blaenoriaethol yn cael eu cyflawni.

Bydd Fforwm Cymunedol Trefdraeth ynghyd â Chyngor Tref Trefdraeth, pob grŵp sydd â diddordeb yn yr ardal, Cyngor Sir Penfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, PLANED a sefydliadau megis Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, cwmnïau gwasanaethau, busnesau preifat ac unigolion yn gweithredu i sicrhau bod y cynigion yn cael eu datblygu. Mae cydweithio o'r fath yn yr oes hon yn ffactor allweddol er mwyn denu cymorth y sector cyhoeddus a phreifat.

Yn ogystal ag arwain ac ysbrydoli gwaith y gymuned yn y dyfodol, bydd "Cynigion ar gyfer Gweithredu " Trefdraeth yn llywio Cyngor Sir Penfro wrth iddo baratoi “Cynllun Cymunedol” y Sir, sef datganiad strategaeth cyffredinol ar gyfer Sir Benfro. Dyma’r prif lwybr sydd ar gael i gymunedau lleol roi gwybodaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru am eu hanghenion a’u syniadau ar gyfer datblygu cynaliadwy. Bydd y cynigion hefyd yn llywio gwaith Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordirol Sir Benfro i ddatblygu’r “Cynllun Datblygu Lleol” (CDLl).

Mae’r cynnydd yn y cyfleodd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi’u cyflwyno i Gyngor Tref Trefdraeth i sicrhau gwelliannau i ansawdd bywyd yn y gymuned trwy’r “grym lles” newydd a’r posibilrwydd cynyddol i Gyngor Tref Trefdraeth ddarparu cyfleusterau a chyflawni gwasanaethau y mae’r Cyngor Sir yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd yn golygu y gall y gymuned ei hun gyflawni mwy o’i chynigion ei hun yn y dyfodol.

Gall gwelliannau eraill ymglymu lefelau uwch o lywodraeth a/neu sector preifat neu gallant gael eu cyflawni gan gwmnïau gwasanaethau.

Yn olaf, y gobaith yw y bydd “Datganiad Cefndir a Chynigion ar gyfer Gweithredu Cymuned Gynaliadwy Trefdraeth” yn gwneud i lawer o berchnogion ail gartrefi sylweddoli'r cymorth sydd ei angen ar Drefdraeth ac yn eu hannog i gymryd rhan yn yr atebion.

## Datganiad Cryno

Mae Trefdraeth yn anheddiad pwysicaf yn ardal ogleddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy’n Gymraeg ei hiaith. Mae lleoliad Canolfan Wybodaeth y Parc yn y Stryd Hir yn adlewyrchu’r pwysigrwydd hwn.

Mae gan Drefdraeth hanes hir fel tref farchnad yn gwasanaethu ei chefnwlad ar gyfer nifer o ddibenion masnachol, cymdeithasol a chyfleusterau hamdden.

Mae Trefdraeth yn gymuned ganolog yn ei hardal, wedi'i dosbarthu fel "CANOLFAN LEOL, Haen 3" a "FFOCWS TWRISTIAETH" yng "Nghynllun Gofodol Cymru" Llywodraeth y Cynulliad.

Hefyd mae Trefdraeth yn "GANOLFAN SIOPA ARDAL" yng "Nghynllun Datblygu Lleol" Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sydd ar fin ymddangos.

Mae plant ysgolion cynradd, babanod a meithrin o sawl gymuned yn yr ardal yn mynychu ysgol Trefdraeth. Mae meddygfa'r meddyg a'r feddygfa deintydd preifat yn gwasanaethu ardal ehangach fyth.

Mae Canolfan Eco Gorllewin Cymru, sydd yng nghanol tref Trefdraeth, yn gwasanaethu ardal eang trwy ddarparu gwasanaethau cynghori ledled y De Orllewin, y Canolbarth a'r Gogledd.

Mae cryfder parhaus Trefdraeth yn ei hamgylchoedd hardd a hanesyddol, yn y dref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas yn ogystal â'r arfordir a dyma'r prif reswm pam fod pobl am fyw yma ac yn mwynhau gwneud hynny a'r rheswm pam fod cymaint o ymwelwyr yn dod i'r ardal.

Erbyn hyn mae Trefdraeth yn wynebu heriau arbennig sy'n cynnwys

- ❑ Poblogaeth breswyl sy'n gynyddol ostwng mewn maint
- ❑ Perifferoldeb – o ran pellter i farchnadoedd a phellter o lawer o wasanaethau. Hefyd y cysyniad bod Awdurdodau yn ei gadael tan y diwedd
- ❑ Anghydbwysedd demograffig amlwg iawn gyda phobl ifanc yn symud allan a chynnydd yn y boblogaeth sydd dros oedran ymddeol.
- ❑ Nifer uchel o gartrefi gwag ym misoedd y gaeaf ond eto i gyd anhawster i ddod o hyd i eiddo i'w rentu'n hirdymor.
- ❑ Chwyddiant ym maint y boblogaeth yn ystod misoedd yr haf yn ychwanegu'n helaeth at y pwysau ar wasanaethau, siopau a busnesau bach eraill

- Gwerthoedd eiddo preswyl uchel a phroblemau cysylltiedig o ran prinder tai fforddiadwy i'w prynu, taliadau uchel y Dreth Gyngor, cost uchel tir ger y dref a'r arfer cynyddol o newid safleoedd manwerthu ar gyfer defnydd preswyl.
- Lleihad yn nifer y siopau a'r gwasanaethau a'r amrywiaeth ohonynt yn y blynyddoedd diwethaf.
- Cyfran uchel o'r ychydig swyddi yn y dref sy'n cael eu cyflawni gan bobl sy'n cymudo i'r gwaith gan ei bod yn rhy ddrud i fyw yma. Ar y llaw arall, mae llawer o'r preswylwyr yn teithio i ganolfannau eraill i ddod o hyd i swyddi sy'n talu'n well.
- Trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gallu defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau iechyd, lles, addysgol, hyfforddi a hamdden a ddarperir i gael eu defnyddio gan bobl Trefdraeth mewn canolfannau eraill - Abergwaun, Aberteifi, Crymych, Hwlffordd.
- Diwylliant a thraddodiadau Cymraeg sy'n nychu a llai o ddefnydd o'r Gymraeg.

# ADRAN 1

## Y Gymuned, Gwasanaethau a Thai

Mae angen i'r gymuned berswadio'r Awdurdod Lleol, lefelau uwch y llywodraeth, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a darparwyr gwasanaethau ei bod yn afrealistig iddynt sefydlu eu polisïau, eu cynlluniau a'u gwasanaethu a lefelau eu cyfleusterau ar gyfer Trefdraeth ar sail ffigurau poblogaeth Cyfrifiad neu amcangyfrifon tymor canolig Cyngor Sir Penfro yn unig. Mae'n rhaid derbyn fod nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau, yn enwedig yn yr haf pan fo mwy o dai, gan gynnwys y nifer fawr o dai gwyliau, â phobl yn byw ynddynt, yn aml lawer iawn yn uwch. Hefyd, rhaid atgoffa'r awdurdodau bod y cyfryw gyfleusterau a gwasanaethau yn cael eu defnyddio gan y cymunedau llai o gwmpas Trefdraeth gydol y

flwyddyn, yn enwedig gan deuluoedd â phlant bach, yn ogystal â chan ymwelwyr dydd â Gogledd Ddwyrain Sir Benfro yn ystod y tymor.

Mae Trefdraeth yn ffodus i gael meddygfa meddyg, deintydd, canolfan iechyd naturiol a fferyllfa sy'n darparu ar gyfer anghenion iechyd a lles y gymuned. Hefyd, mae yma fanc a swyddfa'r post yn ogystal â nifer o siopau, caffis, tai bwyta a thafarndai sy'n darparu rhyw fath o ganolfan gymdeithasol i lawer o bobl.

Mae gan Drefdraeth draddodiad cryf o gysylltiadau teuluol sydd, fodd bynnag, yn nychu wrth i bobl ifanc symud allan ac wrth i'r dylifiad o berchnogion ail gartrefi barhau. Mae yna gnewyllyn o breswylwyr sydd ag ymdeimlad o gymuned a'r creadigrwydd sydd wedi datblygu amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol a hamdden. Hefyd, mae yma nifer fawr o grwpiau cymunedol a chynhelir cyfarfodydd, gweithgareddau, dosbarthiadau, gwibdeithiau, ffeiriau a gwyliau y gall pawb eu mynychu gydol y flwyddyn yn ogystal â regatas ym misoedd yr haf. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o grwpiau'n ei chael yn anodd cadw i fynd, yn enwedig oherwydd diffyg cymorth ysgrifenyddol. Yn aml iawn yr un bobl sy'n gwneud llawer o'r gwaith mewn sawl sefydliad. Mae dod o hyd i le storio cofnodion, archifau a chyfarpar bob amser yn broblem.

Er gwaethaf, neu o safbwynt arall oherwydd, y nifer fawr o breswylwyr hŷn, mae Pwyllgor Lles Pobl Hŷn Trefdraeth, Clwb Cinio'r Bobl Hŷn a'r Grŵp 50+ wedi wynebu anawsterau arbennig a methwyd sefydlu Cynllun Cymydog Da yn ddiweddar. Er ei fod yn cael cefnogaeth y Cyngor Tref a'r un cnewyllyn bach o bobl leol sy'n cynorthwyo ac yn cyfrannu, mae Pwyllgor Lles Pobl Hŷn Trefdraeth yn brin o arian i gynorthwyo'r rhai llai cefnog i gael mynd allan am ddiwrnod a chael gwyliau. Mae angen nodi a mynd i'r afael ag anghenion nifer cynyddol o bobl hŷn, gyda llawer ohonynt

yn byw ar eu pen eu hun. Mae'r pellter o'r gwasanaethu brys yn arbennig yn broblem o bwys. Yn anffodus, mae'n rhaid i lawer o bobl adael Trefdraeth tua diwedd eu hoes i gael mynd i dai wedi'u cynllunio'n addas neu i gartref nyrsio.

Mae'r prinder pobl ifanc yn Nhrefdraeth yn gwanhau clybiau chwaraeon, ac mae'r timau rygbi, pêl-droed a thennis wedi cael problem i ffurfio timau yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae grŵp 'Dros Blant/4 Kids' Trefdaeth wedi datblygu o fod yn Grŵp Llywio i fod yn Bwyllgor ffurfiol gyda chylch gwaith i ddatblygu Darpariaeth Plant y Tu Allan i'r Ysgol ar gyfer Trefdraeth a'r ardal gyfagos. Bydd hyn yn cynnwys cyfleuster cyn ysgol, tu allan i'r ysgol, clwb gwyliau a chyfleuster cymunedol i blant 0-14 oed. Casglodd y Pwyllgor 'Dros Blant/4 Kids' newydd yr holl unigolion a'r grwpiau perthnasol ynghyd gan gynnwys yr Ysgol, y Cyngor Tref a'r grŵp Cyn Ysgol presennol, Cynhaliodd astudiaeth dichonoldeb o'r holl leoliadau addas yn Nhrefdraeth a'r ardal gyfagos. Arweiniodd hyn at nodi adeilad addas, y gellid ei ddatblygu ymhellach er mwyn ehangu'r grwpiau presennol oedd yn ei ddefnyddio i gynnwys cyfleuster y tu allan i'r ysgol. Mae lleoliad y safle yn cynnig amrywiaeth eang o bosibiliadau.

Mae manylion llawn 'Nodau ac Amcanion','Astudiaeth Ddichonoldeb' a 'Chyd-destun Hanesyddol' y Pwyllgor i'w gweld ar wefan Cyngor Tref Trefdraeth.

Mae cyfleusterau'r gymuned yn cynnwys:

- **Y Neuadd Goffa** sy'n Elusen Gofrestredig a reolir gan bwyllgor rheoli o wirfoddolwyr. Daw'r rhan fwyaf o'i hincwm o ffioedd llogi. Awditoriwm yw'r brif ardal amlbwrpas, gyda digon o le i 250 eistedd yno. Mae'n gwasanaethu ardal ddaearyddol fawr ar gyfer rhai digwyddiadau. Mae hefyd yn lle ar gyfer cynnal rhai chwaraeon dan do, dawns, theatr ac ati. Mae grwpiau

cymunedol yn defnyddio'r ystafelloedd llai i gynnal cyfarfodydd, Clwb Cinio'r Bobl Hŷn, dosbarthiadau ac ati. Mae'r Clwb Ieuenctid yn defnyddio'r holl gyfleusterau sydd yn yr adeilad cyfan. Mae'r gegin fawr yn ased defnyddiol ond nid yw'r ystafelloedd wedi'u trefnu'n gyfleus, yn enwedig o ran mynediad i'r cyfleusterau toiled, ac mae diffyg lle parcio yn amharu'n fawr ar y gweithgareddau yn y Neuadd. Mae angen dirfawr am fwy o le storio. Nid yw'r strwythur wedi'i insiwleiddio'n dda ac mae rhai grwpiau'n teimlo bod y Neuadd yn rhy oer ac anghyfforddus iddynt ei defnyddio. Bydd cynnydd ym mhris tanwydd yn broblem gynyddol. Mae gweithredoedd yr Ymddiriedolaeth yn rhwystro defnydd seciwlar o'r Neuadd ar ddydd Sul ac nid yw'n caniatáu alcohol i gael ei yfed. Ni chymerir y fantais orau o botensial y Neuadd.

- **Ysgol Bro Ingli,** sydd wedi darparu lleoliad llwyddiannus ar gyfer Digwyddiadau'r Gymdeithas Gerdd ac Arddangosfa Hanes gyntaf y Dref. Mae'r Cylch Ti a Fi a'r grwpiau Meithrin yn defnyddio neuadd yr ysgol ond mae amserlen yr ysgol ei hun yn anorfod yn cyfyngu ar faint o amser y gellir ei neilltuo i'r gweithgareddau hyn. Mae yna gysyniad bod yr ysgol hon wedi'i hadeiladu fel 'ysgol gymunedol' ac nad yw'n cael ei defnyddio'n llawn.
- Mae'r **Clwb Cychod (preifat)** yn cynnig lle i'w logi ar gyfer cyfarfodydd, gyda golygfeydd hardd tua'r môr. Am y rheswm hwn, mae'n well gan sawl grŵp ddefnyddio'r cyfleuster hwn a hefyd am fod yno well cyfleusterau cynorthwyol nag yn ystafell Bwyllgor y Neuadd Goffa. Mae ail ystafell lai ar gael a chegin fechan i'w llogi.
- Mae gan **Ganolfan Eco Gorllewin Cymru** "ystafell adnoddau cymunedol" i'w llogi (a lle bach arall). Mae'r rhain yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau mwy difrifol megis Cyfarfodydd y Cyngor Tref a rhai dosbarthiadau.

- **Mannau Addoli**
  - Defnyddir **Eglwys y Santes**

**Fair** ei hun ar gyfer rhai cyngherddau'r Gymdeithas Gerdd.

- Mae gan **Eglwys y Santes Fair** neuadd ganolig ei maint hefyd, **Capel yr Eglwys** gyda chegin. Defnyddir hon ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys ffeiriau ac arwerthiannau.
- Mae gan **Gapeli Tabernacl a Bethlehem** ystafelloedd cyfarfod sydd wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar, hefyd gyda cheginau bach. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio ar gyfer cyfarfodydd, arwerthiannau ac arddangosfeydd. Mae **Capel Ebeneser** yn lle braf ar gyfer digwyddiadau corawl.

Mae Cyngor Sir Penfro'n darparu Llyfrgell ran-amser sy'n boblogaidd gan adrannau hŷn y gymuned a, chan fod iddi ardal fechan ond trefnus ar gyfer plant, mae'n boblogaidd gan deuluoedd ifanc hefyd. Mae galw mawr am y 2 gyfrifiadur bob amser ac fel arfer mae'n rhaid eu harchebu ymlaen llaw. Mae'r llyfrgell mewn lleoliad poblogaidd, gerllaw canol y dref ond mae ymgynghorwyr y Cyngor Sir wedi nodi bod y fynedfa i gerddwyr o'r pafin cul ar y brif ffordd ar hyn o bryd yn annigonol.

Mae cyfleusterau hamdden yn y dref yn cynnwys:

- **Y maes chwarae, cyrtiau tennis a pharc sgrialu** ar dir o eiddo Cyngor Tref Trefdraeth sy'n cael ei weinyddu gan Ymddiriedolaeth Maes Chwarae Trefdraeth a'r unig Ymddiriedolwr yw Cyngor Tref Trefdraeth. (Mae'r Hen Gastell hefyd yn rhan o'r eiddo hwn) Mae yno adeilad ystafelloedd newid yn cynnwys storfa, ystafelloedd newid, cyfleusterau cawodydd cymunedol a chyfleusterau toiled. Ar hyn o bryd nid ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn ac maent yn ddrud i'w cynnal a'u cadw: ystyrir eu hadnewyddu/eu hailosod er mwy bodloni gofynion y gymuned sy'n newid.
- Mae'r **ardal gemau aml-ddefnydd (MUGA)** a adeiladwyd gan y Cyngor Sir mewn ymgynghoriad â Chyngor Tref Trefdraeth gan ddefnyddio arian 'Cronfa Cyfleoedd Newydd Cyllid y Loteri Genedlaethol'. Mae wedi'i lleoli ar dir y Cyngor Sir ac mae ar gael ar gyfer defnydd yr ysgol a'r gymuned.

Mae Cyngor Tref Trefdraeth ar hyn o bryd yn edrych ar y posibilrwydd o greu 'Maes Chwarae Natur' ar y safle hwn.

- Cafodd **maes chwarae'r plant** hefyd ei adeiladu ar dir Cyngor Sir Penfro gyda chyfarpar wedi'i ddarparu gan Fenter Wledig Carningli a Chyngor Tref Trefdraeth. Mae'r cyfarpar yn cael ei asesu ar hyn o bryd ar gyfer gwelliant a'i ddiweddaru.
- Prynodd Cyngor Cymuned Trefdraeth **Barc y Plant,** hen faes chwarae'r ysgol yn y gorffennol, oddi wrth Gyngor Sir Dyfed ym 1994. Mae cyfamod yn bodoli i gynnal y cyfryw dir i'w ddefnyddio yn unig fel Maes Chwarae er lles y Gymuned. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor Tref wedi edrych ar y posibilrwydd o wyrdroi'r cyfamod a gwerthu'r ardal ar gyfer tai gan ddefnyddio'r elw i ddatblygu cyfleuster cymunedol yn rhywle arall ac mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi asesu'r ardal fel un addas at y diben hwn yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro hefyd wedi awgrymu safleoedd cicio pêl eraill pe byddai Parc y Plant yn cael ei ddisodli gan rywbeth arall. Mae cynlluniau yn dod yn eu blaen yn dda ar gyfer uwchraddio'r llwybrau troed trefol;
- Trwy garedigrwydd yr Arglwyddes Mers Cemais, gall y gymuned ddefnyddio **Lawnt Parrog (*Parrog Green*),** sy'n eiddo i farwniaeth, ar gyfer gwyliau a ffeiriau. Mae angen lefelu a draenio'r ardal hon i'w gwneud yn fwy addas ar gyfer gweithgareddau yn y gaeaf.
- Cyfeillion Trefdraeth a Nanhyfer sydd piau'r ardd gyhoeddus fechan at ben uchaf
- Stryd y Farchnad a hwy sy'n ei chynnal a'i chadw.
- Gerddi (Jiwbilî) Fictoria

Cyngor Tref Trefdraeth sydd piau hen safle Cyngor Sir Benfro ar **Iard Parrog** hefyd**.** Prynwyd y llain gyda'r syniad o ddarparu clwb ieuenctid a chyfleusterau cymunedol eraill. Mewn cyfarfod cyhoeddus yn 2004, gofynnodd y gymuned i'r Cyngor Tref edrych ar 4 opsiwn ar gyfer defnyddio'r llain yn y dyfodol, sef, tai fforddiadwy, lle ar gyfer crefftau/gweithdai, cyfleuster i ieuenctid a oedd hefyd yn gyfleuster cymunedol amlbwrpas a'i ddefnyddio ar

gyfer lle parcio i breswylwyr oddi ar y stryd (fel yn awr). Mae'r Cyngor wedi datblygu cronfa ar gyfer cyfleuster ieuenctid. Mae cyfamod cyfyngol ar y tir hwn.

Mae'r Gysgodfa o eiddo Cyngor Tref Trefdraeth wedi'u hadnewyddu'n ddiweddar ac mae Cyngor Tref Trefdraeth ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau gyda'r tirfeddianwyr o ran ymarferoldeb ail-adfer cysgodfa Cwm.

Mae'r cyfleusterau a'r gwasanaethau hamdden a ddarparwyd gan y Cyngor Sir i'w defnyddio gan bobl Trefdraeth ond mewn canolfannau eraill - Abergwaun, Crymych a Hwlffordd - yn anodd i'w cyrraedd gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig ar y Sul a chyda'r hwyr sef y cyfnodau gyda'r galw mwyaf.

Oherwydd gwerth uchel eiddo, mae taliadau'r dreth gyngor yn uwch yn Nhrefdraeth nag yw ar gyfer eiddo cyfatebol mewn mannau eraill yn Sir Benfro, eto i gyd ystyrir bod y Cyngor Sir a'r Parc Cenedlaethol yn darparu llai o gefnogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau i'r gymuned.

Mae anghydbwysedd demograffig amlwg Trefdraeth yn cael ei wneud yn waeth oherwydd pris tai. Mae cyfran uchel o dai Trefdraeth yn wag am y rhan fwyaf o'r gaeaf, a dim ond llond dwrn o berchnogion ail gartrefi sy'n cynnig i'w heiddo gael eu defnyddio fel eiddo rhent yn y gaeaf, gan ofyn i denantiaid adael yn ystod misoedd yr haf pan fod rhentu eiddo gwyliau llawer yn fwy proffidiol. Mae llawer o bobl yn cael eu gorfodi i fyw mewn carafán gydol y flwyddyn. Mae llawer o bobl ifanc yn symud i ffwrdd, o leiaf yn rhannol, am eu bod yn methu â dod o hyd i gartref i'w brynu neu'i rentu. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod 13 o dai

Cymdeithas Dai ychwanegol wedi'u hadeiladu i'w rhentu yn 2008 ar gyfer anghenion lleol 100% yn wreiddiol ynghlwm wrthynt, a derbyniodd Tai Cantref ymhell dros gant o geisiadau cymwys ar eu cyfer. Efallai na fydd y polisi hwn yn berthnasol yn y dyfodol.

**Cynigion Parhaus**

Annog balchder yn Nhrefdraeth a bod yn 'gymdogion da' drwy:-

- Barhau i ddatblygu'r ysbryd cymunedol presennol drwy:
  - Wella perthnasau gwaith rhwng Cyngor y Dref a grwpiau cymunedol.
  - Datblygu cysylltiadau mwy positif gyda chyrff cyhoeddus eraill sy'n effeithio ar ffurf a natur Trefdraeth (er enghraifft y Cyngor Sir, APCAP).
  - Bod yn ymwybodol o anghenion y trigolion oedrannus neu'r rheiny sy'n ei chael hi'n anodd symud o gwmpas; er enghraifft, gweithredu cynllun 'ymweld â chymydog'.
- Hyrwyddo ac ehangu rhaglen o ddigwyddiadau cymunedol a allai gynnwys cynnal arddangosfeydd a hyrwyddo gwyliau celfyddydau a chrefftau / carnifalau / regatas, y tân gwyllt hydrefol ac ati.
  - Ffurfio Grŵp Digwyddiadau i ddatblygu a hysbysebu digwyddiadau busnes a chymunedol yn ogystal ag achlysuron yn Nhrefdraeth a'r cyffiniau.
  - Paratoi a dosbarthu cylchlythyr Trefdraeth ac arddangos bwletinau misol sy'n cynnwys digwyddiadau arfaethedig, materion presennol, amserau bysiau, cynlluniau rhannu ceir ac ati.
  - Ailsefydlu cyhoeddwr y dref.
- Sefydlu fforwm ar gyfer pobl ifanc.
  - Ddatblygu a hysbysebu rhaglen o weithgareddau a phenderfynu pa gyfleusterau sydd angen eu gwella neu'u creu i gwrdd â'u hanghenion newidiol.
  - Gwella cysylltiad â mudiadau eraill er enghraifft Ymddiriedolaeth y Tywysog ac ati.
- Dylai gwella'r cysylltiadau rhwng y clwb ieuenctid a defnyddwyr clybiau, cyfleusterau a gweithgareddau presennol

arwain at wella aelodaeth *a* gweithgareddau ymhlith nifer o fudiadau sydd eisoes yn y dref.

- Archwilio'r dichonoldeb o ddatblygu cyfleuster y tu allan i oriau'r ysgol ac adeg gwyliau ysgol pan fod rhieni'n gweithio, ar gyfer y grŵp oedran 0 i 14. Bydd angen i'r astudiaeth dichonoldeb asesu nifer tebygol y plant, y cyfleoedd i ddefnyddio eiddo addas a natur ac ystod y sgiliau sydd o fewn y gymuned ehangach i reoli'r 'clwb'.
- Gellid cysylltu'r cynnig â Chanolfan Galw-i-mewn ar gyfer ieuenctid, gyda chyfleusterau celf a chrefft cysylltiedig; prosiect a ystyriwyd yn flaenoriaeth. Fe allai llain sy'n eiddo i Gyngor y Dref, fod yn safle posib ar gyfer canolfan o'r fath. Un o'r gwasanaethau a ellid ei gynnig yw llyfrgell gyda chyfleusterau TG.
- Hyrwyddo a chynyddu'r diddordeb yng Nghlwb Cinio'r Henoed a'r digwyddiadau cysylltiedig.
- Adlewyrchu canlyniadau'r arolwg a sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer pobl ifanc, uwchraddio'r cyfleusterau'r Neuadd Goffa. Er enghraifft
  - Paratoi a gwerthu cynnyrch ar gyfer digwyddiadau lleol.
  - Uwchraddio'r acwstig, y goleuadau ac ati a gosod offer taflunio i ganiatáu perfformiadau drama, cyngherddau ac ati, gan gynnwys discos, a dangos ffilmiau.
  - Creu cyfleoedd i arddangos paentiadau ac arddangosfeydd eraill.
  - Gwyrdroi'r cyfyngiad ar trwydded ar gyfer yfed alcohol yn y Neuadd Goffa
  - Parhau â chynlluniau'r maes parcio ar gyfer y neuadd.
- Datblygu canolfan amlbwrpas i ategu at y cyfleusterau presennol i'w defnyddio gan glybiau a mudiadau, i gynnwys
  - Gweithgareddau chwaraeon
  - Cyfarfodydd busnes
  - Tir ar gyfer maes parcio ac at ddefnydd hamdden
  - Denu gweithgareddau masnachol i helpu i greu incwm – o bosib drwy ymchwilio i ddatblygu Depo Parrog fel cyfleuster posib ar gyfer y gymuned.
- Gwneud y defnydd gorau o Barc y Plant a'r cae chwarae i ffurfio sylfaen y gweithgarwch hamdden – canolbwyntio o

bosib ar ddefnyddio'r cae chwarae am sawl pwrpas.

- ❑ Darparu mwy o feinciau yn y gerddi cymunedol.
- ❑ Agor caffe seibr i ddarparu cyfleoedd TG a lle i bobl ifanc yn ystod y dydd/gyda'r nos a fydd ar agor drwy'r flwyddyn. Gallai'r caffe hefyd weithredu fel y ganolfan galw-i-mewn gyntaf.
- ❑ *Annog y llyfrgell i agor ar Sadyrnau.*
- ❑ Ehangu ystod y cyfleoedd iechyd/ffordd o fyw sydd eisoes ar gael yn Nhrefdraeth - er enghraifft - sba / jacuzzi, aromatherapi, triniaethau amgen, campfa / *ystafell ffitrwydd*/ pwll nofio.

**Cynigion Newydd**

- ❑ Gosod hysbysfwrdd cymunedol mawr ar y Sgwâr ar frys
- ❑ Cyflawni astudiaeth o anghenion y plant a'u teuluoedd ac anghenion pobl ifanc - i nodi lle mae'r cyfleusterau cyfredol yn annigonol, pa gyfleusterau pellach sydd eu hangen a sut y gellir eu darparu mewn ffordd gynaliadwy.
- ❑ Cyfleusterau clwb ar gyfer y clwb tennis a grwpiau cymunedol eraill, ochr yn ochr â'r maes chwarae.
- ❑ Edrych ar y posibilrwydd o gynorthwyo pobl ifanc yn arbennig i ddychwelyd i fyw yma. Cysylltu â'r Prosiect Llwybro-Routes i nodi cyn-breswylwyr Trefdraeth sydd am ddychwelyd.

**Tai a Gwasanaethau**

- ❑ Datblygu tai fforddiadwy a chynaliadwy i'w prynu neu'u rhentu i ddiwallu anghenion lleol drwy:
  - ♦ Cynhyrchu ynni cynaliadwy, draeniau glanweithdra cynaliadwy a thir ar gyfer tyfu bwyd yn yr holl dai newydd.
  - ♦ Nodi safleoedd, yn enwedig safleoedd bach er mwyn adeiladu tai fforddiadwy – cynnig sydd o'r pwysigrwydd mwyaf.
  - ♦ Nodi adeiladau presennol sydd modd eu haddasu neu'u troi'n gartrefi.
  - ♦ Gwneud defnydd o arbenigedd y ganolfan ECO i

ddefnyddio a datblygu sgiliau lleol er mwyn adeiladu, adfer a chynnal eiddo - ac wedi hynny gweithredu fel rhan o dîm atgyweirio/datblygu tai gogledd Sir Benfro.

- Hyrwyddo adeiladu tai ecogyfeillgar / effaith isel - o bosib trwy gysylltu â:
- APCAP fel Awdurdod Cynllunio i gwrdd ag anghenion tai lleol mewn modd cynaliadwy, o bosib gan ddefnyddio'r polisi 'eithriadau' a lle'n briodol defnyddio cynlluniau a deunyddiau arloesol. Dylai ymagweddau o'r fath ostwng y costau adeiladu a chynnal a chadw.
- APCAP, Coleg sir Benfro a Choleg Ceredigion i ddatblygu sgiliau adfer adeiladau a thechnoleg ecogyfeillgar.
- Annog Tai Cantref i nodi a phrynu safleoedd newydd i ddatblygu tai fforddiadwy.
- Annog creu daliadau bach.
- Annog y tai sydd ynghlwm ag amaethyddiaeth sydd ar gael i'w rhentu neu'u prynu.
- Cyfuno unedau gwaith a thai.
- Annog hunan adeiladu i ostwng costau.

- Annog y defnydd o 'ail gartrefi' drwy'r flwyddyn gron drwy:
  - Gydweithio gyda pherchnogion ail gartrefi/tai haf i wireddu'r cynnig naill ai drwy ddarparu llety tymor byr ar rent ar gyfer anghenion lleol neu i gynyddu'r cyfleoedd i ymwelwyr rhentu drwy'r flwyddyn gron, felly'n darparu incwm pellach i fusnesau drwy gydol y flwyddyn
  - Gofyn i'r Cyngor Sir ad-dalu Treth Cyngor tai haf yn gyfan gwbl neu'n rhannol i Gyngor Tref Trefdraeth er mwyn hwyluso Cronfa Datblygu Trefdraeth.
- Cysylltu datblygu tai newydd gyda chyfleoedd gwaith newydd naill ai fel adeiladau ar wahân neu i gorffori'r fath anghenion yng nghynllun cychwynnol lletyau preswyl unigol. Mae gweithio o'r cartref/stiwdio yn debygol o fod yn rhan amlwg o economi Trefdraeth.
- Cysylltu â Heddlu Dyfed Powys a chynnal y diwylliant o gymdogrwydd/trosedd isel.
- Atgyfnerthu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau meddygol presennol, darparu ar gyfer gwasanaethau deintydd GIG.

**Cynigion Newydd**

- ❑ Annog y gwaith o ddatblygu gofal preswyl i'r Henoed
- ❑ Cynhyrchu ynni yn gynaliadwy, draenio a glanweithredu cynaliadwy ym mhob tŷ newydd
- ❑ Darparu llety wedi'i ddylunio'n addas i bobl hŷn o fewn datblygiad Cymdeithas Dai

# ADRAN 2

## Yr Amgylchedd

### a) Cadwraeth a Gwelliant

Mae Trefdraeth ym Mae Ceredigion, ar ymyl ddeheuol aber yr Afon Nyfer ac wedi'i hadeiladu ar odre bryniau sy'n wynebu'r môr ac sy'n rhan o gadwyn mynyddoedd y Preseli. Gellir gwerthfawrogi lleoliad naturiol cadarn y dref orau o'r aber, a dyma sy'n rhoi'r fath "naws am le" tanbaid i'r dref. Yr hyn sy'n gwneud Trefdraeth yn "em yng nghoron" yr ardal fendigedig hon yw'r cyferbyniad rhwng yr olygfa aberol arfordirol a'r gymysgedd o dir amaethyddol a choedwigoedd gwledig sy'n codi'n raddol uwchben y dref ac yn ymestyn tuag at ucheldiroedd Mynydd Carn Ingli.

Cedwir y rhwydwaith o lwybrau o amgylch y dref ar agor trwy ymroddiad Grŵp Llwybrau Trefdraeth sy'n gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Mae gwaith y grŵp hwn – sy'n wirfoddolwyr yn bennaf - wedi'i ganmol am y safon uchel a osodir ganddo i weddill y Sir.

Mae Western Power wedi claddu rhywfaint o'r ceblau dan y ddaear a chafwyd gwared ar bolion telegraff, sydd i'w groesawu, ond mae'r gwifrau sydd uwchben rhannau helaeth o'r Ardaloedd Cadwraeth yn eu hagru. Mae cefnogaeth leol ar gyfer cadw a gwarchod yr elfennau amgylcheddol sydd o arwyddocâd cymdeithasol a hanesyddol. Dangosir yr un gefnogaeth i welliannau parhaus, yn enwedig trwy "Fenter Treftadaeth Treflun" i wella'r ganolfan

fanwerthu sy'n cynnwys ffryntiad deniadol o oes Fictoria sawl un o'r siopau. Y dymuniad diysgog yw y dylid gwneud hyn yn y fath fodd fel ei fod yn adlewyrchu'r cymeriad presennol sef golygfa wledig ddestlus yn hytrach na'i bod yn ymddangos fel pe bai wedi'i siapio'n ofalus. Mae'n bwysig bod deunyddiau adeiladu a thechnegau priodol yn cael eu defnyddio wrth adfer neu wneud newidiadau i eiddo ac wrth godi adeiladau newydd.

Yn anffodus iawn mae Trefdraeth wedi colli ardaloedd o lystyfiant yng nghanol y dref o ganlyniad i'r tai a adeiladwyd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n bwysig bod y coedwigoedd, y coed a'r cloddiau'n cael eu cadw ac y gellir ychwanegu atynt lle bynnag posibl.

Mae Trefdraeth yn brin o fannau agored defnyddiol yng nghanol y dref ond yn elwa ar ardd fechan ar Stryd y Farchnad, sy'n eiddo i Gyfeillion Trefdraeth a Nanhyfer ac sy'n cael ei chynnal a'i chadw ganddynt. Mae'n manteisio hefyd ar haelioni perchennog preifat yr ardal o gwmpas y gysgodfa bws sy'n barod i alluogi i'r Cyngor Tref rheoli hon ar gyfer y gymuned.

Nid yw'r dref mor ddestlus a glân ag y dylai fod yn ystod misoedd yr haf. Mae yna broblem am nad yw'r prif ddiwrnod pan fo un grŵp o ymwelwyr yn gadael a grŵp arall yn cyrraedd yn cyd-daro â'r diwrnodau casglu sbwriel a bagiau oren.

**b) Adnoddau ac Ynni, Gwastraff ac Ailgylchu**

Mae gan bobl Trefdraeth gryn ddiddordeb yn yr amgylchedd. Datblygodd Canolfan Eco Gorllewin Cymru o "Grŵp Ynni" gwirfoddol gwreiddiol Trefdraeth ac mae bellach yn bwysig yn genedlaethol ac yn parhau i gael cefnogaeth y gymuned. Mae gan Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth a sefydlwyd yn ddiweddar lawer o gefnogaeth i'w nod o weld Trefdraeth yn datblygu'n "Dref Trawsnewid", gan wynebu i'r newid yn yr hinsawdd trwy leihau ein hôl troed carbon lle bynnag posibl, ac i "oblygiadau penllanw'r cyflenwad olew a nwy" trwy ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon ac mewn modd cynaliadwy wrth gynllunio ein dyfodol.

Er bod cyfleoedd ailgylchu wedi gwella'n ddiweddar, yn bennaf trwy Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth mae menter ar droed ar gyfer ailgylchu mwy o
blasig a chardfwrdd, dyhead pellach y Grŵp yw dileu gwastraff yn gyfan gwbl yn ardal Trefdraeth.

Efallai y bydd cynlluniau cynhyrchu ynni yn y gymuned a microgynhyrchu ynni domestig yn wynebau rhwystrau gan y cyfyngiadau cynllunio a orfodir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yn enwedig mewn rhannau eang helaeth o'r dref sydd wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth.

**Cynigion Parhaus**

- Hyrwyddo mynediad i gefn gwlad o gwmpas Trefdraeth i bobl o bob gallu ar gyfer hamdden yn yr awyr agored, trwy gynnal a gwella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy a darparu gwybodaeth gan gydweithio gyda Grŵp Llwybrau Trefdraeth a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae system lwybrau sy'n annog pob adran o'r gymuned i'w defnyddio yn agwedd ymarferol o'r agenda byw'n iach ac yn annog dealltwriaeth a mwynhad pobl o'r amgylchedd.
- Cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith beiciau o gwmpas Trefdraeth a lôn feiciau rhwng Trefdraeth a Dinas a Threfdraeth a Llwyngwair.
- Cynhyrchu taflenni priodol a deunyddiau dehongli.
- Datblygu Llwybr-eco.
- Yr Odyn Grochenwaith o'r Canol Oesoedd yn y Neuadd Goffa i gael ei chyfnerthu a'i dehongli a sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Adeiladu odyn waith ar yr un safle.
- Annog y Cyngor Sir y gasglu sbwriel yn amlach yn ystod yr haf.
- Edrych ar y posibilrwydd o gyflogi ysgubwr stryd ar yr adegau mwyaf prysur.

- Edrych ar osod cuddfannau adar ar hyd glan deheuol yr aber. (Partneriaid posibl yn cynnwys Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru, Partneriaethau Bioamrywiaeth a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro).
- Ceisio gwella'r gwaith o reoli traethau, gan gynnwys ffyrdd o leihau effaith ceir a chŵn ar y traethau lleol.
- Gofyn i Gyngor Sir Penfro orfodi ei is-ddeddf ar gyfer rheoli'r gwaith o reoleiddio sgis jet a chychod modur mawr; gan gynnwys cyfyngiadau cyflymder
- Edrych ar wella'r dref mewn modd sensitif gan gynnwys rhoi ceblau trydan dan y ddaear mewn Ardaloedd Cadwraeth.
- Edrych ar y posibilrwydd o ail-adfer cysgodfa Cwm.
- Ceisio bod yn niwtral o ran carbon ac yn hunangynhaliol yn Nhrefdraeth trwy ostwng y galw am bŵer a chefnogi'r gwaith o gynhyrchu ynni adnewyddadwy - *re Newport Concept*
- Cefnogi'r gwaith o reoli coetiroedd i ddarparu tanwydd pelenni a choetir coed copi i gynhyrchu biodanwydd i'w ddefnyddio'n lleol.
- Annog perthynas agos rhwng y Ganolfan Eco a'r dref gan gynnwys dyddiadau agored codi ymwybyddiaeth
- Mewn cydweithrediad â'r Ganolfan ECO a'r dref, edrych ar y posibilrwydd o gynhyrchu ynni trwy'r gwynt, yr haul, yn fiolegol, pŵer y tonnau a'r llif a'i ddefnydd wedyn yn y gymuned.
- Annog Awdurdod y Parc Cenedlaethol i lacio'r drefn Gynllunio bresennol a chefnogi ceisiadau ar gyfer gosod paneli solar ac ati i gynhyrchu dŵr poeth a melinau gwynt ar gyfer cynhyrchu trydan.

- **Cynigion Newydd**

- Edrych ar ba mor ymarferol yw hi i Drefdraeth ddatblygu'n Ardal Trawsnewid.
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb i'r posibilrwydd y gall Trefdraeth ficrogynhyrchu ynni domestig a chynhyrchu ynni yn y gymuned.
- Cynllun compostio cymunedol, yn ddelfrydol yn y rhandiroedd neu safle tyfu bwyd cymunedol.

- Plannu mwy o goed lle bynnag posibl o amgylch Trefdraeth, yn enwedig yn lle'r rhai a gollwyd ym Mharc y Plant, er mwyn cysgodi Maes Parcio Trefdraeth i wella Ffordd y Parrog.
- Dylai dŵr glaw a charthffosiaeth gael eu gwahanu yn y ffynhonnell gan fod y ddau yn ddefnyddiol ar wahân. Dŵr glaw ar gyfer dyfrhau, golchi ac amwynder, carthffosiaeth ar gyfer nwy a maetholion y tir ar ôl treuliad anaerobig. Neu, gellir ei brosesu heb ddefnyddio pympiau drud neu fylbiau UV sy'n defnyddio setliad, bacteria, haul a gwelyau cyrs ar gyfer triniaeth drydyddol.
- Annog Dŵr Cymru i archwilio'r gwaith o osod Treuliwr Methan Anaerobig
- Datblygu cynllun samplu a phrofi i gael ei gyflawni yn ystod un tymor nofio o leiaf, er mwyn gweld beth yw ansawdd dŵr yr afon Nanhyfer wrth y bont ac yng Nghwm adeg y distyll.
- Cyflawni arolwg ffotograffig o batrymau a dwyseddau nofio, ar hyd llinell ddŵr gyfan Traethmawr er mwyn sefydlu'r man mwyaf priodol ar gyfer pwynt samplu dynodedig.

### c) Seilwaith, Traffig, Trafnidiaeth a Pharcio

Mae gwasanaeth bws rheolaidd yn gweithredu 12 gwaith y dydd (ac unwaith ar ddydd Sul) trwy ganol Trefdraeth ar Gefnffordd yr A487 rhwng Hwlffordd ac Abergwaun i Aberteifi. Hefyd, mae bws arfordirol (*Poppit Rocket*) yn gweithredu gwasanaeth cyfyngedig gydol y flwyddyn, gan gysylltu Trefdraeth â Threwyddel a Llandudoch. Mae "Bws y Ddraig Werdd" Cymdeithas Trafnidiaeth Wledig y Preseli yn gweithredu ar 2 ddiwrnod o'r wythnos yn unig a thair gwaith y dydd, rhwng Trefdraeth a rhai pentrefi cyfagos ac mae cynllun aelodaeth "galw cerbyd" yn gweithredu gydol y flwyddyn.

Roedd ffyrdd Trefdraeth yn bodoli ymhell cyn dyfodiad moduron, a bellach mae'r dref yn dioddef am fod cerbydau'n llenwi'r strydoedd siopa yn yr haf, am fod y pafinau yn gul neu am nad oes pafin yn aml ac am fod yna brinder lle parcio cyhoeddus i'r ceir. Mae'n anodd i lawer o breswylwyr sy'n byw yn reit agos i ganol y dref gerdded yn ddiogel i'r dref.

Mae'r Cyngor Sir yn caniatáu i faes parcio'r ysgol gael ei ddefnyddio gydol gwyliau'r haf i ategu at Faes Parcio'r dref ond mae hwn hyd yn oed ymhellach o siopau Trefdraeth. Hefyd nid oes digon o le parcio oddi ar y ffordd i'r preswylwyr. Mae lle ar gyfer 25 o geir preswylwyr a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd parcio oddi ar y ffordd ar Iard Parrog.

Crybwyllwyd cynnal astudiaeth gynhwysfawr o broblemau traffig a cherddwyr Trefdraeth mewn cyfres o Gynlluniau Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ers 20 mlynedd. Dylid cyflawni unrhyw gynlluniau rheoli traffig, gwaith arall i wasanaethau cyhoeddus, dodrefn a goleuadau'r stryd ac ati mewn modd sy'n briodol i Drefdraeth.

Er gwaethaf buddsoddiad helaeth yn y seilwaith a chael cyllid grant dros y degawdau, mae system garthffosiaeth Trefdraeth yn dal i beri pryder difrifol. Pan fo'r ddaear ychydig yn wlyb, mae carthion crai heb eu trin, wedi'u gwanhau gan ddŵr glaw yn unig, yn gollwng i'r Bae dim ond ychydig islaw lefel dŵr y trai a gerllaw ardaloedd ymdrochi poblogaidd. Ar adegau fel hynny, mae'r sefyllfa'n sylweddol waeth na'r sefyllfa mor bell yn ôl â'r 1970au.

Cafodd Traeth Traethmawr (sydd yn Nanhyfer a lle mae llawer yn teithio iddo mewn car o Drefdraeth) statws Baner Las yn 2007 a'i cholli eto'r flwyddyn ganlynol am i'r dŵr ymdrochi fethu'r prawf ansawdd. Nid yw'r ardal ymdrochi yng Nghwm, lle mae'n well gan lawer o bobl Trefdraeth nofio am eu bod yn gallu cerdded yno, yn elwa ar yr amddiffyniad sydd ar gael yn sgil Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi'r UE gan nad yw'n "ddŵr ymdrochi dynodedig".

**Cynigion Parhaus**

- Gosod mesurau diogelwch/gostegu traffig ar y ffyrdd sy'n arwain i mewn i'r dref, ac yn y dref, gan gynnwys
  - Mesurau cyfyngu cyflymdra ar hyd yr A487(T).
  - Goleuadau traffig ar yr A487 i reoli llif y traffig dwyrain / gorllewin yn ystod yr haf.
  - Cyfyngu'r cyflymdra i 10 m.y.a. o Lwybr y Gors i

Forawelon a'r Clwb Cychod.

- ♦ Cyfyngiadau 'Dim parcio' bob ochr o'r ffordd i'r ysgol.

- ❑ Gwella cludiant cyhoeddus/cymunedol trwy:
  - ♦ Gynyddu amlder a /neu amserau presennol y gwasanaeth bysiau lleol, yn enwedig gyda'r hwyr.
  - ♦ Defnyddio bysiau sy'n medru cario beiciau.
  - ♦ Gweithredu gwasanaeth bws cymunedol sy'n cychwyn o Drefdraeth.
  - ♦ Trafod cynllun tocyn teithio rhatach i blant a phobl ifanc a fydd yn annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth leol
  - ♦ Gweithredu cynllun rhannu ceir yn ardal Trefdraeth.
  - ♦ Cysylltu â chwmnïau rheilffyrdd a Fforwm Trafnidiaeth Gogledd Sir Benfro ynglŷn â gwella'r gwasanaethau o Abergwaun.
  - ♦ Cwmnïau bysiau i ddefnyddio mwy o fysiau bach yn ardal Trefdraeth i adlewyrchu'r rhwydwaith ffyrdd.
- ❑ Gwella trefniadau parcio drwy:
  - ♦ Ystyried cynyddu nifer y mannau parcio fel rhan o'r cynllun gwella.
  - ♦ Gweithredu cynllun parcio i drigolion yn ystod yr haf
  - ♦ Cyflogi Warden Traffig adeg y cyfnodau prysuraf i reoli'r parcio ar y stryd a gostwng y tagfeydd cysylltiedig.
- ❑ Gwella palmentydd - Long Street i'r Ysgol / y Feddygfa / Swyddfa'r Post a Chyffordd Heol Parrog gan gynnwys darparu cyrbau isel lle bo'n briodol.

**Cynigion Newydd**

- ❑ Atolygu'r polisi codi tâl am barcio, er enghraifft trwy ganiatáu rhai eithriadau gan gynnwys parcio am ddim i breswylwyr lleoliadau wrth ymyl y traeth.
- ❑ Trafod gyda'r Cyngor Sir, ffyrdd o leihau traffig y ffordd trwy Drefdraeth a'r aflonyddu sy'n deillio o symudiadau cerbydau.
- ❑ Annog defnyddwyr ceir i ddefnyddio cerbydau sy'n effeithiol o ran ynni.
- ❑ Edrych ar y posibilrwydd o barcio a theithio yn ystod cyfnodau prysur yr haf

# ADRAN 3

## Yr Economi Lleol

Mae Trefdraeth wedi dibynnu i raddau helaeth ar dwristiaeth o safbwynt yr economi. Mae Trefdraeth yn ganolfan ddelfrydol er mwyn teithio o gwmpas y nifer fawr o gofadeiladau Celtaidd hynafol sydd i'w gweld yn ardal Gymraeg ei hiaith y Parc Cenedlaethol. Mae'r Llwybr Arfordirol Hirbell, gyda'i doreth o flodau gwyllt a childraethau cysgodol cudd, yn rhedeg ar hyd dwy ochr yr Afon Nyfer ac, ar ochr Trefdraeth mae'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan Drefdraeth lawer o lwybrau troed a llwybrau cerdded eraill o amrywiol hyd trwy'r ardal wledig o gwmpas a gellir mwynhau'r rhain gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Mae llwybrau cerdded cylchol o'r dref yn arwain yr ymwelydd i uchelderau Carn Ingli gyda golygfeydd ysblennydd tuag at Eryri, Mynyddoedd Wicklow a Phenrhyn Tyddewi. Mae'r aber yn cynnwys cyfoeth o fywyd gwyllt, yn enwedig wrth Bont Trefdraeth a ail-adeiladwyd mewn modd sensitif gan Gyngor Sir Penfro er mwyn parhau i ddarparu llwyfan rhagorol i fwynhau hyn.

Felly, mae llawer o'r atyniadau twristiaeth yn yr ardal - y môr a'r traethau, y llwybrau a chefn gwlad, yr hanes a'r archaeoleg - sydd ar gael am ddim i ymwelwyr eu mwynhau. Mae hyn yn golygu bod y cymorth y maen nhw'n ei gynnig i economi Trefdraeth yn un anuniongyrchol. Mae Castell Treftadaeth yn annedd breifat ac nid oes yma amgueddfa, canolfan chwaraeon neu hamdden - dim "cyfleuster tywydd gwlyb " - i ymwelwyr ei ddefnyddio, a allai ddarparu rhywfaint o incwm twristiaeth i'r gymuned.

O ran darpariaeth llety, mae cyfran uchel o'r rhain yn rhai "hunanarlwyo" ac nid yw cyfran uchaf yr incwm, h.y. y rhent yn cylchredeg yn lleol pan fo'r perchnogion yn byw yn rhywle arall. Mae safle carafannau sefydlog o fewn canol y dref yn Nhrefdraeth a safleoedd carafannau eraill, gyda'r rhain i gyd yn cynnig llety gwyliau mwy fforddiadwy. Mae tystiolaeth amgylchiadol yn dangos bod gwersyllwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio'r siopau a'r tai bwyta lleol ac felly'n bwysig i'r economi lleol. Mae Trefdraeth yn

brin o lety â gwasanaeth, ac mae incwm o hwnnw yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio yma. Mae'r Hostel Ieuenctid ar gau am 5 mis o'r flwyddyn ac eithrio ar gyfer archebion grŵp yn achlysurol.

Mae grŵp cyn ysgol/grŵp chwarae annibynnol wedi'i hen sefydlu sy'n ffynnu yma sy'n gallu defnyddio neuadd Ysgol Bro Ingli.

Mae'r chwyddiant sydyn ym maint y boblogaeth ym misoedd yr haf yn ychwanegu'n helaeth at y pwysau ar wasanaethau, siopau a busnesau bach eraill ac mae'r newid sylweddol yn y galw yn ei gwneud yn anodd i fusnesau ymdopi.

Mae canolfan fanwerthu Trefdraeth yn dibynnu ar dwristiaeth ac yn ased i dwristiaeth. "Busnesau ffordd o fyw" yw'r siopau yn bennaf ac ni fyddent yn goroesi heb dwristiaeth ond hefyd ni fyddai'r ymwelwyr yn cael amser mor bleserus heb y busnesau hynny. Mae llawer o bobl sy'n byw yn y cymunedau cyfagos yn defnyddio'r ganolfan fanwerthu, yn enwedig pan fyddan nhw'n dod i'r dref at ddibenion eraill megis mynd i'r feddygfa, yr ysgol, y llyfrgell, y ganolfan iechyd naturiol ac ati. Fodd bynnag, mae llawer o breswylwyr Trefdraeth yn teithio i ganolfannau eraill i siopa lle mae'n haws parcio, mae llai o dagfeydd traffig yn yr haf ac mae'r pafinau yn fwy diogel ac mae yna fwy o amrywiaeth o nwyddau i'w prynu sydd fwy na thebyg yn rhatach. Byddai mynd i'r afael â'r problemau hyn yn annog mwy o bobl i siopa'n lleol.

Mae Trefdraeth yn un o ardaloedd Gorllewin Cymru sydd â phroblem o safbwynt eiddo, ac mae hyn yn ei gwneud yn anodd cael gafael ar lety fforddiadwy yn y dref i redeg busnes. Mae mwy o werth i eiddo fel preswylfeydd yn hytrach nag eiddo masnachol ac mae rhai siopau wedi newid o fod yn eiddo masnachol yn y blynyddoedd diwethaf.

Gwelwyd gostyngiad sylweddol a phryderus yn nifer ac amrywiaeth y siopau a'r gwasanaethau. Mae colli'r siop lyfrau a'r orsaf betrol ddiwethaf oedd ar gael yn ddiweddar wedi bod yn golled drom.

Mae Canolfan Wybodaeth y Parc Cenedlaethol a'r gwasanaeth

archebu llety wedi darparu ychydig o le swyddfa i'r ceidwaid a'r swyddogion yn ddiweddar ac mae hyn i'w groesawu. Mae'r Ganolfan bellach yn cael ei ehangu er mwyn cael gwell lle arddangos.

Mae lle arddangos bach yn y Ganolfan Eco hefyd.

Mae 2 uned weithdy yn y Parc Busnes o eiddo'r Cyngor Sir, gyda gweddill y safle wedi bod yn segur ers 17 mlynedd (ac eithrio adeiladu meddygfa deintydd preifat). Mae Trefdraeth cryn bellter o farchnadoedd mawr, sydd wedi rhwystro unedau gweithgynhyrchu rhag sefydlu yma.

Prif gyflogwyr Trefdraeth yw Canolfan Eco Gorllewin Cymru, Garej Fysiau Richards, y ganolfan fanwerthu gan gynnwys tafarnau a thai bwyta, Ysgol Bro Ingli, y feddygfa a'r ysgol. Mai yma nifer fawr o bobl hunangyflogedig gyda llawer o fusnesau bach yn gweithredu o gartref. Mae tystiolaeth amgylchiadol yn dangos, ar wahân i breswylwyr gydol y flwyddyn a pherchnogion ail gartref, sy'n ymweld adeg gwyliau, mae mwy a mwy o bobl yn byw yma am ran o'r amser, gyda mynediad band eang yn cynorthwyo'u busnesau. Mae yna lawer o bobl yn ardal Trefdraeth sy'n ennill eu bywoliaeth trwy waith celf neu grefft ac ar hyn o bryd mae eu hincwm yn dibynnu'n helaeth ar dwristiaeth.

Pobl sy'n cymudo i'r gwaith am eu bod yn rhy ddrud i fyw yma sy'n gweithio mewn swyddi yn y dref. Ar y llaw arall, mae llawer o'r preswylwyr yn teithio i ganolfannau eraill i gael swyddi sy'n talu'n well. Mae ychydig o aelodau Cydweithfa Trefdraeth (sydd ymysg llawer sy'n ennill eu bara caws yn yr ardal ym maes celf a chrefft) yn byw yn Nhrefdraeth lle mae eu
siop fanwerthu.

Mae Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth yn gweithio i annog economi sydd o natur greadigol ac sy'n ymateb yn bositif i her byw ar ôl carbon - ar gyfer economi lleol sy'n lleihau ein hôl troed carbon cyfunol trwy gwtogi ar gludo bwyd a nwyddau eraill. Mae parhad canolfan fanwerthu Trefdraeth yn elfen hanfodol yn hyn.

Nod y Grŵp hwn hefyd yw annog pobl i dyfu mwy o fwyd a chynhyrchu mwy o nwyddau'n lleol, a rhannu, ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu mwy. Mae rhandiroedd a thir yn y gymuned ar gyfer bwyd yn flaenoriaeth uchel.

Byddai'r Grŵp hwn hefyd yn hoffi gweld polisïau cynllunio sy'n annog cefn gwlad lle mae pobl yn byw/ gweithio yn yr ardal o gwmpas Trefdraeth fel y gall pobl dyfu mwy o fwyd ar dir y maen nhw wedi'i drin.

**Cynigion Parhaus**

- Ceisio cyfranogiad ar unwaith yng Nghynllun Adfywio Abergwaun a Gogledd Sir Benfro.
- Annog Coleg Sir Benfro i ddatblygu canolfan allgymorth yn Nhrefdraeth er mwyn sefydlu canolfan addysg uwch ac addysg yn seiliedig ar sgiliau ar gyfer gogledd Sir Benfro.
- Adeiladu ar enw da Trefdraeth fel Canolfan Eco ac annog ehangu ei hagenda adeiladu cynaliadwy a ffordd o fyw.
- Cefnogi datblygu ffermydd/ arallgyfeirio drwy raglen hyfforddi leol - i gynnwys cyrsiau coedlannu / plygu perthi a nodi cyfleoedd ar gyfer ffermio organig a sgiliau rheoli cefn gwlad.
- Annog gosod perthi ar gloddiau Sir Benfro.
- Gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru / CSP neu'r sector preifat adeiladu / droi eiddo sydd eisoes yn bodoli ar y safle diwydiannol i mewn i unedau cychwynnol er mwyn datblygu mentrau bach i ychwanegu gwerth i gynnyrch lleol - un o'r prif amcanion byddai darparu cyfleoedd gwaith ar gyfer trigolion lleol sydd wedi gadael yr ysgol/coleg.
- Trefnu 'marchnad stryd' o bryd i'w gilydd yn Stryd y Farchnad, er mwyn gwerthu cynnyrch a gwasanaethau lleol. Cynnal ffeiriau themâu yn ystod y flwyddyn - gallai hyn gysylltu â datblygu rhandiroedd yn ardal Trefdraeth gyda'r potensial i dyfu bwyd i'w werthu'n lleol.
- Annog Cyngor Sir Penfro a Chyngor Tref Trefdraeth i dderbyn eu cyfrifoldeb dros ddarparu rhandiroedd os gwneir cais am hynny gan fwy na 6 o drigolion a chydweithio â *Newport Allotment Association* i sicrhau bod rhandiroedd addas yn cael eu darparu.

- Annog:-
  - siopau a busnesau eraill i brynu nwyddau a deunyddiau'n lleol.
  - preswylwyr i brynu'n lleol, gan atal gwariant sy'n cael ei gynhyrchu'n lleol rhag gollwng o economi Trefdraeth amrywiol wasanaethau
  - gwariant lleol mewn siopau lleol er mwyn cynnal yr amrywiaeth o wasanaethau sy'n
  - datblygu cyfleoedd ychwanegol; er enghraifft pysgod a sglodion, dillad 'bron yn newydd' bodoli eisoes.
- Ehangu'r hyn sydd gan Drefdraeth i'w chynnig ar gyfer yr ymwelwyr yn ystod y cyfnodau prysur/tawel drwy ddatblygu hanes naturiol / teithiau cerdded thematig / teithiau pysgota ac ati felly'n annog busnesau a gwasanaethau i gadw'n ar agor drwy'r flwyddyn. Mae cyfleoedd hefyd yn codi i fanteisio ar y diddordeb cynyddol mewn diwylliannau Celtaidd a'r rheini sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg.
- Annog busnesau i dderbyn yr Ewro.
- Datblygu eco-dwristiaeth a llwybr mewn cydweithrediad â'r Ganolfan ECO, ACPAC, Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid (YHA) ac Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain .
- Datblygu cysylltiadau ag atyniadau i ymwelwyr cyfagos, er enghraifft Castell Henllys, er mwyn cynyddu'r diddordeb a'r gwariant drwy'r flwyddyn.
- Cefnogi 'twristiaeth yn Nhrefdraeth' gyda chysylltiadau sydd â lletyau / darparwyr bwyd, datblygu twristiaeth dawel yn seiliedig ar gerdded, beicio, gwylio adar, canŵio ac ati. Annog mwy o ddarparwyr llety, gwestai ac ati.
- Annog Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i adolygu swyddogaeth ei Ganolfan Gwybodaeth er mwyn diwallu anghenion economi Trefdraeth.
- Sefydlu cyswllt gyda chwmni Stena Ferries i hyrwyddo Trefdraeth fel gwir flas o Sir Benfro.
- Datblygu'r cysylltiadau gefeillio presennol gyda Llydaw ac Anapolis, UDA, a phosibiliadau eraill er enghraifft Eire trwy gwmni Stena Ferries.
- Ymchwilio i ailsefydlu'r cwch fferi ar hyd yr aber.
- Annog awdurdod cynllunio APCAP i edrych yn ffafriol ar

fusnesau nad ydynt yn gysylltiedig â thwristiaeth wrth ystyried amrywiaeth cefn gwlad.

- Adeiladu safle diwydiannol 'eco' ysgafn (gan gynnwys tai) i gefnogi newid - i drwsio ac ailgylchu nwyddau ac ychwanegu gwerth at gynnyrch lleol.

**Cynigion Newydd**

- Ymdrechu i ddod yn dref Croeso i Gerddwyr
- Edrych ar fynediad i Gastell Trefdraeth trwy greu taith gylchol yn nhir y castell
- Edrych ar swyddogaeth Carnigli yn nyfodol Trefdraeth o ran ffermio, cynhyrchu bwyd, rheoli, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yr amgylchedd a diwylliant
- Edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio mwy o'r afon Nanhyfer ac ardal Bae Trefdraeth ar gyfer cynhyrchu bwyd, hamdden, cynaliadwyedd amgylcheddol a chwaraeon
- Parc Busnes estynedig gydag unedau gweithio/byw a thema i gynorthwyo "Trawsnewid" - gan ychwanegu gwerth at gynhyrchion lleol, ailddefnyddio, atgyweirio, ailgylchu - ond hefyd cynnwys Canolfan Eco Gorllewin Cymru estynedig ac wedi'i hadeiladau'n bwrpasol (ac felly ynddi'i hun yn arddangos adeiladu eco addas yn y Parc Cenedlaethol) gyda lle arddangos a chyfleuster addysg/hyfforddiant, yn enwedig ym maes eco-adeiladu, fel estyniad i Golegau Ceredigion neu Sir Benfro. Byddai hyn o gymorth i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd demograffig, gallai sicrhau bod lleoedd gwag yn cael eu defnyddio yn ystod y tymor a byddai'n cynorthwyo twristiaeth.
- Cyflogi gofalwr i'r dref, gweithiwr cynnal a chadw, tirmon a glanhawr strydoedd i ofalu am y dref a'i chyfleusterau.
- Edrych ar ffyrdd o sicrhau economi mwy lleol trwy sefydlu arian lleol.
- Defnyddio ynni adnewyddadwy, gan gynnwys dyfeisiadau'r llanw, ar gyfer prosesau gweithgynhyrchu
- Darparu 'gwasanaethau plant y tu allan i'r ysgol' perthnasol i annog teuluoedd i ddychwelyd i weithio.
- Annog ynni adnewyddadwy a draenio cynaliadwy ym mhob eiddo masnachol newydd

- Cryfhau'r ganolfan fanwerthu a busnesau sy'n cynhyrchu bwyd a chynhyrchion eraill yn lleol i'w dosbarthu'n lleol, trwy bob modd, gan gynnwys marchnad leol wythnosol, (o leiaf yn ystod misoedd yr haf)

# ADRAN 4

## Treftadaeth, Diwylliant, Celf a Chrefft

Mae Trefdraeth, yn ogystal â Charn Ingli, wedi'i chofrestru fel "Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru". Mae Trefdraeth yn bwysig fel tref unigryw sy'n parhau yn "fwrdeistref wedi'i chynllunio" o'r canol oesoedd. Mae'n dref Normanaidd "blanedig" gyda grid cadarn o strydoedd gyda lleiniau o dir bwrdais ar hyd iddynt. Maent yn cael eu gwasanaethu gan ffrydiau wedi'u naddu â llaw sy'n llifo i lawr i aber y Nyfer, gyda chastell Normanaidd ac Eglwys y Santes Fair gyda'i thŵr hardd yn eu cysgodi. Mae rhai lleiniau tir bwrdais wedi'u colli oherwydd y tai sydd wedi'u hadeiladu yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r ffrydiau hanesyddol wedi cael eu hesgeuluso'n llwyr fel nodweddion pwysig o ddiddordeb.

Mae'r Castell, beddrod siambrog Neolithig Carreg Coetan Arthur a'r odyn crochenwaith canoloesol sydd o dan y Neuadd Goffa, o arwyddocâd cenedlaethol. Mwy na thebyg yr Hen Gastell yw safle'r cadarnle Normanaidd gwreiddiol. Nid oes fawr neu ddim dehongliad ar eu safleoedd.

Bellach, Trefdraeth yw'r dref leiaf yng Nghymru ac sy'n falch o gadw ei statws fel bwrdeistref a ddyfarnwyd iddi ym 1215. Mae iddi gyfarfodydd sesiwn ei hun a Maer. Mae'r Cwrt Lit a'r Cwrt Barwn - dynion yn unig – a benodir gan Arglwyddes Mers Cemais yn dal i gyfarfod ac mae seremoni'r Maer a "churo'r terfynau" bellach yn ddigwyddiadau hwylus sy'n denu diddordeb twristiaid. Rhoddodd yr Arglwyddi Normanaidd yr hawl i gynnal ffeiriau a marchnadoedd

er mwyn ysgogi masnach, ac mae'r ffair fwyaf, Ffair Gurig, yn parhau i gael ei chynnal heddiw.

Roedd Trefdraeth Parrog unwaith yn borthladd prysur. Roedd yr anheddfa hon yn bodoli cyn y dref y mae'n nythu yn ei chysgod ond mae'n rhan ohoni ers amser maith bellach. Roedd adeiladu llongau, pysgota, chwareli llechi, masnachu arfordirol a llosgi calch yn bwysig yn y gorffennol. Mae Parrog yn meddu ar gymeriad arfordirol deniadol, gyda morglawdd llechi fertigol ac adeiladau hŷn ar hyd y lan - warysau creiriol ac odynau calch - sy'n dal ar eu traed hyd heddiw i'n hatgoffa o'r gorffennol morol, diwydiannol a masnachol. "Trefdraeth" oedd enw gwreiddiol y gymdogaeth hon, "trefgordd ar y glan", a dyna'r enw Cymraeg ar y dref heddiw.

Mae canol tref Trefdraeth a Threfdraeth Parrog wedi'u dynodi'n 'Ardaloedd Cadwraeth' o ddiddordeb pensaernïol a hanesyddol, ym 1999.

Mae yna gysylltiad diwylliadol cryf gyda glan yr Afon Nyfer ar yr ochr draw, lle'r oedd y tir ffrwythlon sy'n wynebu tu'r de yn draddodiadol yn darparu grawn i gymuned Trefdraeth. Ddiwedd y 16$^{eg}$ ganrif, roedd chwe bwa i Bont gerrig Trefdraeth sy'n cysylltu'r dref a Nanhyfer. Fe'i dymchwelwyd am fod pobl y dref o'r farn mai'r trigolion o ochr draw i'r afon oedd yn achosi'r "clefyd chwysu" a oedd wedi mynd â bywyd nifer o'r trigolion. Defnyddid y cerrig sarn anferth (a oedd yno cyn y bont mwy na thebyg) i groesi'r afon wedyn ac maent i'w gweld adeg y distyll hyd heddiw.

Dywedir bod Sant Brynach wedi cymuno â'r Angylion o gopa Carn Ingli, neu "Mons Angelorum". Ar ddau gopa Carn Ingli, gwelir gweddillion pentref caerog o'r Oes Haearn gyda dros 25 o aelwydydd, eto heb unrhyw ddehongliad ar y safle.

Fel prif dref cantref Cemais, yn ystod y 13eg a'r 14eg ganrif Trefdraeth oedd y ganolfan ar gyfer y rheoli milwrol a'r dylanwad tramor ymysg y Frodoriaeth. Erbyn y 15fed ganrif fodd bynnag, roedd gan lawer o ddeiliaid y lleiniau tir bwrdais enwau Cymraeg, ac wedi hynny gwelwyd y diwylliant a'r iaith Gymraeg yn cryfhau tan yn ddiweddar. Gan fod y dref yn anorfod wedi datblygu'n lle eithriadol o ddeniadol i fyw ynddo, mae wedi denu mewnfudiad sydd wedi golygu bod ei diwylliant wedi newid, yn fwyaf amlwg efallai o ran defnyddio'r Gymraeg bob dydd. Fodd bynnag, mae plant Ysgol Bro Ingli yn cael eu haddysg yn y Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf sy'n symud i mewn i'r ardal yn gwneud rhywfaint o ymdrech i ddysgu Cymraeg. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn defnyddio'r ysgol i recordio atgofion y preswylwyr Cymraeg hynaf am Drefdraeth yn y gorffennol.

Mae harddwch a hanes yr ardal wedi denu nifer fawr o artistiaid a chrefftwyr i fyw a gweithio yma. Mae yna un sy'n fframio lluniau yma, 2 oriel gelf, 2 siop grefftau a bob blwyddyn cynhelir cyfres o arddangosfeydd ac arwerthiannau. Mae grwpiau celf a chrefft yn cyfarfod gydol y flwyddyn a chynhelir cyrsiau celf i ymwelwyr yn yr haf.

**Cynigion Parhaus**

- Ffurfio / ailffurfio grwpiau ar gyfer drama, dawns (gan gynnwys salsa), nosweithiau corawl neu gerddoriaeth arall.
- Datblygu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg a'r rheini sydd â diddordeb yn niwylliant Cymru i gynnal digwyddiadau/gwyliau thema yn Nhrefdraeth, mewn cydweithrediad â darparwyr addysg a llety.
- Datblygu llwybr treftadaeth o gwmpas Trefdraeth i adlewyrchu hanes archeolegol, eglwysig, cymdeithasol a morwrol yr ardal. Byddai modd ategu at y llwybr drwy ddatblygu darnau o gerflunwaith unigol neu barc cerflunwaith fel rhan o'r atyniad presennol.
- Nodi adeilad ac adnoddau addas i ddatblygu a rheoli cynllun ar gyfer sefydlu amgueddfa yn y dref.

### Cynigion Newydd

- Cyfleuster celf a chrefft sy'n cynnwys y cyfarpar angenrheidiol gyda lle i'w rentu a hefyd canolan alw i mewn (aelodaeth neu gyfradd yr awr) ar gyfer artistiaid a gwneuthurwyr lleol. Gellid defnyddio hon hefyd fel lle hyfforddi ar gyfer pobl leol er mwyn iddyn nhw gael datblygu sgiliau ac ymestyn eu creadigrwydd. Gellid cyfuno hyn gydag oriel/siop i arddangos celf a chrefft lleol o bosibl gan weithio gyda grwpiau megis Cydweithfa Trefdraeth sydd wedi bodoli ers dros 13 blynedd.
- Edrych ar y posibilrwydd o sefydlu Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Hanesyddol i gadw adeiladu o bwys hanesyddol yn ardal Trefdraeth, ee yr Hen Gastell, Castell Trefdraeth, Carreg Coedan, yr Odynau Calch, yr odyn grochenwaith o'r Canol Oesoedd yn y Neuadd Goffa ac ati.
- Cynnal arolwg a chofnodi'r cerrig beddau ym mynwent y dref a mynwent y Santes Fair

## ATODIAD A

## Rhai o Gyflawniadau Trefdraeth Ers 2004

### Cymuned, Gwasanaethau a Thai

- Comisiynodd PLANED astudiaeth o'r Neuadd Goffa ar ran y pwyllgor.
- Gwelliannau i'r Neuadd Goffa i alluogi mwy o ddawnsio, gymnasteg dan do a chwaraeon gyda grant gan Uned Adfywio Sir Benfro. Parc Sgrialu wedi'i adeiladu gan y plant, Cyngor y Dref, Ymddiriedolaeth Maes Chwarae Trefdraeth a'r WCVA.
- Y traeth wedi'i wella rhwng y Clwb Cychod a Camelot.
- Ardal Gemau Aml-ddefnydd wedi'i hariannu gan y Loteri Genedlaethol, ar ôl ymgynghoriad rhwng Cyngor Sir Penfro a Chyngor Tref Trefdraeth, sydd wedi adeiladu ar dir wrth ymyl Maes Chwarae Trefdraeth ai'r gymuned ei defnyddio .
- Clwb Tennis Trefdraeth wedi ail-osod arwyneb Cyrtiau Tennis Trefdraeth.

- Rhestl feiciau ym Maes Parcio Trefdraeth ac ar y Sgwâr.
- Sefydlu grŵp gofal plant Dros Blant/4 Kids Trefdraeth gyda chymorth Fforwm Cymunedol Trefdraeth.
- Fforwm y We ar gyfer pobl ifanc ar safle'r Cyngor Tref
- To Gwyrdd wedi sefydlu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol.
- Cyflawni Arolwg Anghenion Tai Trefdraeth gan Gyngor Tref Trefdraeth gyda Galluogwr Tai Sir Benfro.
- Tai Cantref wedi adeiladu 13 o unedau Cymdeithas Dai ychwanegol.
- Cynnal Pencampwriaeth Achub Bywyd Cenedlaethol 2007 ar wahoddiad Clwb Achub Bywyd Arfordir Trefdraeth.
- Cyngor Tref Trefdraeth yn cychwyn Gŵyl Aeaf wedi'i sefydlu gan Bwyllgor Gŵyl Wanwyn Cae Trefdraeth gyda chymorth y Siambr Fasnach, PLANED a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Si Benfro.
- Goleuadau Nadolig estynedig wedi'u darparu gan Gyngor Tref Trefdraeth.

**Yr Amgylchedd**

- Ffurfio Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth (NAEG) trwy Fforwm Cymunedol Trefdraeth.
- NAEG a'r Ganolfan Eco yn trefnu Diwrnodau Codi Ymwybyddiaeth y Dref.
- Mwy o gyfleusterau ailgylchu yn wreiddiol trwy NAEG a chymorth PLANED/Cyngor Sir Penfro/SRS, erbyn hyn gan Gyngor Sir Penfro.
- Gwella'r pafinau ar hyn Stryd Hir o dan Gynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol
- Grantiau Gwella Ardal Gadwraeth i rai preswylwyr a busnesau cymwys wedi'i reoli gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- Gwella Cysgodfa Parrog gan y Cyngor Tref gyda chymorth Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.
- Ffurfio Cymdeithas Rhandiroedd Trefdraeth
- MANWEB a BT wedi claddu rhai ceblau o dan y ddaear yn dilyn ceisiadau gan Gyngor Tref Trefdraeth.
- Dodrefn Gardd a Gardd Perlysiau'r Gegin yn Neuadd Goffa Trefdraeth